
# SPSF 5:
## Dyddiadau Allweddol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol

Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Nodau llesiant
## Beth ydym yn anelu ato




# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
## Sut y byddwn yn cyflawni




Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adrannau 14, 22 (2) a 51 (1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG29310
ISBN digidol 978 1 4734 7539 7

Darlun ar y blaen wedi'i gynllunio gan Freepik – www.freepik.com

# Dyddiadau Allweddol

## Cyflwyniad

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yw gwella llesiant Cymru yn gymdeithasol, yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol. Mae'n rhoi diben cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith – sef y saith nod llesiant – i lywodraeth genedlaethol, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol, y byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae'n manylu ar sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio a chydweithio er mwyn gwella llesiant Cymru.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwell penderfyniadau drwy sicrhau y bydd y cyrff cyhoeddus hynny'n ystyried y sefyllfa yn yr hirdymor, y byddant yn helpu i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf neu rhag gwaethygu, y byddant yn cydweithredu ac yn cydweithio mewn ffordd integredig, ac yn ystyried ac yn cynnwys pobl o bob oed. Diben y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio y darperir ar eu cyfer gan y Ddeddf yw cefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar gyfer cyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a chynghorau cymuned perthnasol sef "Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol". Mae'r canllawiau i'w gweld yma:

**http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?lang=cy**

## Diben

Diben y nodyn hwn yw amlinellu'r dyddiadau allweddol pryd y bydd gofyn i gyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau lleol, cynghorau cymuned perthnasol, ac eraill weithredu'r Ddeddf.

*Sylwer – nid yw'r canllawiau hyn yn rhai statudol, a dyddiadau dangosol a nodir isod ar gyfer camau a fydd yn cael eu cymryd yn y dyfodol.*

## 2015

| | |
|---|---|
| **Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**<br>Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). | 17 Mawrth 2015 |
| **Cydsyniad Brenhinol** | 29 Ebrill 2015 |
| **Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig**<br>Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn mabwysiadu'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy.<br>Dolen: **https://sustainabledevelopment.un.org/** | 25 Medi 2015 |

## 2016

| | |
|---|---|
| **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**<br>Dyletswyddau a swyddogaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cychwyn.<br>Dolen: **http://cenedlaethaurdyfodol.cymru/** | 1 Chwefror 2016 |
| **Canllawiau statudol**<br>Cyhoeddi canllawiau statudol *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol*.<br>Dolen: **http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy** | 24 Chwefror 2016 |

| | |
|---|---|
| **Dangosyddion Cenedlaethol**<br>Cyhoeddi'r Dangosyddion Cenedlaethol cyntaf er mwyn mesur cynnydd yn unol â'r saith nod llesiant.<br>Dolen: **http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?skip=1&lang=cy** | 16 Mawrth 2016 |
| **Y dyletswyddau llesiant**<br>Y dyletswyddau llesiant ar gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cychwyn. | 1 Ebrill 2016 |
| **Sefydlu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus** | 1 Ebrill 2016 |
| **Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>Pŵer a dyletswydd archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn cychwyn.<br>Dolen: **http://www.archwilio.cymru/** | 1 Ebrill 2016 |
| **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**<br>Cyfarfod cyntaf y byrddau gwasanaethau cyhoeddus i'w gynnal dim hwyrach na 60 diwrnod ar ôl dyddiad sefydlu'r bwrdd. | Erbyn 31 Mai 2016 |
| **Amcanion llesiant (Gweinidogion Cymru)**<br>Rhaid i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf ymhen 6 mis, fan bellaf, i etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>Dolen: **www.llyw.cymru** | Erbyn 5 Tachwedd 2016 |

**2017**

| | |
|---|---|
| **Amcanion llesiant (cyrff cyhoeddus eraill)**<br>Rhaid i gyrff cyhoeddus (heblaw Gweinidogion Cymru) bennu a chyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf dim hwyrach na dechrau'r flwyddyn ariannol ar ôl y dyddiad y cafodd adran 9 o'r Ddeddf ei chychwyn, sef 1 Ebrill 2016.<br>Mae angen i bob corff cyhoeddus adrodd ar y cynnydd a wnaed ganddo o ran cwrdd â'i amcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn ariannol blaenorol. I gael gwybodaeth bellach, darllenwch yr adran isod ar 'Adroddiad Blynyddol'. | Erbyn 1 Ebrill 2017 |
| **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**<br>Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad cyntaf a fydd yn nodi rhagfynegiadau a thueddiadau o ran llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Gall hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth a data dadansoddol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu barnu'n briodol. | Erbyn 5 Mai 2017 |
| **Byrddau gwasanaethau cyhoeddus** – **Asesu llesiant lleol**<br>Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi ei asesiad cyntaf o lesiant lleol.<br>Rhaid cyhoeddi asesiad o lesiant lleol flwyddyn, fan bellaf, cyn dyddiad cyhoeddi'r cynllun llesiant lleol. | Erbyn Mai 2017* |

## 2018

| | |
|---|---|
| **Cynlluniau llesiant lleol**<br>Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi ei gynllun llesiant lleol cyntaf.<br>Rhaid cyhoeddi cynllun llesiant lleol flwyddyn, fan bellaf, ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredin i' r awdurdod lleol. | Erbyn Mai 2018* |
| **Cynlluniau llesiant lleol: rôl cynghorau cymuned**<br>Rhaid i'r cynghorau cymuned a thref hynny y mae adran 40 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol sy'n effeithio ar eu hardaloedd nhw. | O ddyddiad cyhoeddi'r cynllun llesiant lleol cyntaf sy'n effeithio ar eu hardal nhw |

## 2020

| | |
|---|---|
| **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**<br>Rhaid i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru baratoi a chyhoeddi'r Adroddiad cyntaf ar Genedlaethau'r Dyfodol. | Erbyn Mai 2020 |
| **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>Adroddiad cyntaf Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwiliadau i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. | Erbyn Mai 2020 |

## Adroddiad Blynyddol

**Gweinidogion Cymru**

Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad blynyddol ar y cynnydd y maen nhw wedi'i wneud o ran cwrdd â'u hamcanion llesiant. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.

**Cyrff Cyhoeddus eraill (nid Gweinidogion Cymru)**

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus adrodd bob blwyddyn ar y cynnydd y maen nhw'n ei wneud o ran cwrdd â'u hamcanion lleisiant. Rhaid iddynt adrodd ar hynny bob blwyddyn ariannol. Caiff blwyddyn ariannol ei diffinio fel y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth. Rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.

Ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, rhaid iddynt adrodd mewn perthynas â phob blwyddyn gyfrifyddu. *Caiff y term blwyddyn gyfrifyddu ei ddefnyddio yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*.

Ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol sy'n ofynnol iddynt ei baratoi o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 hefyd gynnwys manylion am y cynnydd a wnaed gan y corff o ran cwrdd â'i amcanion llesiant.

**Byrddau gwasanaethau cyhoeddus (adroddiad blynyddol ar gynnydd)**

Mae'n rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi adroddiad blynyddol ar gynnydd gan nodi'r camau y mae wedi'u cymryd, ers cyhoeddi'r cynllun llesiant lleol mwyaf diweddar, i gwrdd â'r amcanion a nodir yn y cynllun hwnnw.

Rhaid i bob bwrdd gyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd 14 mis, fan bellaf, wedi i'r cynllun llesiant lleol gael ei gyhoeddi, ac yna blwyddyn, fan bellaf, ar ôl pob adroddiad ar gynnydd a ddaw wedi hynny. Fodd bynnag, nid oes angen i fwrdd baratoi adroddiad ar gynnydd os bydd cynllun llesiant lleol yn cael ei gyhoeddi flwyddyn, fan bellaf, ar ôl i adroddiad blaenorol y bwrdd gael ei gyhoeddi.

**Rhagor o wybodaeth:**

Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, gan gynnwys 'Yr hanfodion' a ffilm fer, i'w gweld ar ein gwefan:
**http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Ddeddf, mae croeso ichi anfon e-bost at:
**FGActWales@wales.gsi.gov.uk**